Rhif: WG27403

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

# Cynnig i gofrestru ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith

**Cynnig i gofrestru ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith â Chyngor y Gweithlu Addysg**

Dyddiad cyhoeddi: 8 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 31 Mawrth 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

# Cynnig i gofrestru ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn gwahodd safbwyntiau'n ymwneud â'r cynigion i ymestyn swyddogaethau a rôl Cyngor y Gweithlu Addysg. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn **31 Mawrth** fan hwyraf. |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gael yn http://gov.wales/about/programmeforgov/?skip=1&lang=cy |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Nathan Huish<br>Yr Is-adran Safonau Ymarferwyr a<br>Datblygiad Proffesiynol<br>Y Gyfarwyddiaeth Safonau a Gweithlu Ysgolion<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays<br>Caerdydd<br>CF10 3NQ<br><br>e-bost: ewc.enquiries@cymru.gsi.gov.uk<br>Ffôn: 029 2082 3039 |
| **Diogelu data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol. |

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi,rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

# Cynnwys


**Crynodeb** 2
**1. Cefndir** 3
**2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg** 4
**3. Cyflwyniad** 5
**4. Rhesymeg dros y newid** 7
**5. Cofrestru** 8
**6. Y cynnig sydd dan ystyriaeth** 9
**7. Sut i gyflwyno sylw ynghylch y cynnig hwn** 12

# Crynodeb

Bu i Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ad-drefnu ac ailenwi Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, gan ehangu cylch gwaith y corff a chyfansoddiad ei aelodaeth i'w droi'n Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Digwyddodd hynny ar 1 Ebrill 2015, a dyna hefyd pryd y'i gwnaed hi'n ofynnol i athrawon Addysg Bellach, yn ogystal ag athrawon ysgol, gael eu cofrestru'n broffesiynol. O fis Ebrill 2016 bydd y gofyniad i gofrestru'n cael ei ymestyn i weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion/sefydliadau Addysg Bellach.

Cynigir, o fis Ebrill 2017, y bydd yn rhaid i unigolyn gael ei gofrestru â'r Cyngor er mwyn gweithio fel ymarferwr Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau ynghylch cynigion Llywodraeth Cymru i gofrestru ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith.

# 1. Cefndir

1.1. Ar hyn o bryd, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i greu a chynnal cofrestr o athrawon ysgol, athrawon Addysg Bellach a gweithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion/sefydliadau Addysg Bellach. Mae'n ofynnol i unigolion ym mhob un o'r pedwar categori gofrestru os ydynt yn dymuno gweithio mewn ysgolion a gynhelir neu sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru, gan gynnwys athrawon peripatetig a'r sawl sy'n gweithio i asiantaeth, sy'n gwneud gwaith cyflenwi neu sydd â swyddi dros dro. Mae'n ofynnol i bob cyflogwr sicrhau mai dim ond pobl sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor a gaiff eu cyflogi ganddynt.

1.2. Ar hyn o bryd, nid yw'n ofynnol i ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith gofrestru ag unrhyw gorff cofrestru.

1.3. Er i Lywodraeth Cymru nodi yn y lle cyntaf y proffesiynau yr oedd yn ofynnol iddynt gofrestru (dan Atodlen 2 y Ddeddf), nid oedd hynny'n golygu na fyddai modd ei gwneud yn ofynnol i grwpiau eraill gofrestru yn y dyfodol, megis ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith a gweithwyr ieuenctid, sydd hefyd â chyfraniad gwerthfawr i'w wneud i addysg a hyfforddiant pobl ifanc. Mae Deddf 2014 yn creu fframwaith sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ychwanegu categorïau cofrestru newydd, fel y bo'n briodol ac yn amodol ar gytundeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

1.4. Mae'n hanfodol bod yr holl ymarferwyr gwahanol hyn yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol a'u bod yn gallu cael mynediad i gymwysterau, cymorth a chyfleoedd datblygu sydd wedi'u cynllunio'n dda. Mae eu proffesiynoldeb, eu haddasrwydd a safonau eu hymddygiad, eu hyfforddiant a'u datblygiad yn allweddol i'w llwyddiant. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau ein bod yn cydnabod rôl pawb sy'n gweithio i gefnogi addysgu a dysgu yn rhan o un gweithlu addysg cydlynol yng Nghymru.

## 2. Nodau Cyngor y Gweithlu Addysg

Dyma nodau statudol y Cyngor:

- cyfrannu at wella safonau addysgu ac ansawdd dysgu yng Nghymru;
- cynnal a gwella safonau ymddygiad proffesiynol ymhlith athrawon a phobl eraill yn y gweithlu addysg sy’n cefnogi gwaith addysgu a dysgu.

# 3. Cyflwyniad

3.1. Mae'r sector Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnwys amrywiaeth eang o wahanol fathau o sefydliadau, ac nid oes y fath beth â darparwr hyfforddiant nodweddiadol. Mae'r sector yn cynnwys nifer o hyfforddwyr annibynnol yn ogystal â mentrau bach a chanolig ac ambell i endid corfforaethol mawr. Mae hyfforddwyr yn cynnig ystod o wasanaethau a disgyblaethau neu feysydd arbenigedd sy'n aml yn eithaf gwahanol i'w gilydd.

3.2. Gallai hyfforddiant fod yn brif weithgaredd i'r cwmnïau hyn, neu gallai beidio â bod hefyd; gallai darparwyr gynnwys mudiadau elusennol a gwirfoddol yn ogystal â busnesau masnachol.

3.3. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid sylweddol i gefnogi Dysgu Seiliedig ar Waith, drwy ystod o ddarparwyr, i hybu'r gwaith o ddarparu nifer o raglenni. Mae darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yn rhan o'n rhaglenni Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth.

3.4. Mae rhaglenni blaenllaw megis Hyfforddeiaethau a Phrentisiaethau yn galluogi miloedd o bobl ifanc i ddatblygu sgiliau hanfodol a fydd yn eu helpu i wneud cynnydd ar hyd y llwybr y maent yn ei ddewis o ran cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant pellach.

**<u>Prentisiaethau</u>**

3.5. Mae Prentisiaethau yn rhaglen statws cyflogedig sy'n cynnig y cyfle i gyfranogwyr ennill cymwysterau cydnabyddedig ar Lefel 2, 3 a 4 ac uwch. Mae ystod eang o gyfleoedd am Brentisiaethau ar gael, o faes gweinyddu i faes peirianneg. Maent yn cynnwys dysgu crefft, sgil neu broffesiwn gan ennill cyflog a chymhwyster a gaiff ei gydnabod yn genedlaethol ar yr un pryd. Unwaith y bydd y brentisiaeth wedi gorffen ceir cyfle i barhau i weithio, i gael dyrchafiad efallai neu i fynd ymlaen i addysg uwch mewn coleg neu brifysgol.

**<u>Sgiliau ar gyfer Cyflogaeth Cymru</u>**

3.6 Pan gyflwynir y rhaglen hon ym mis Ebrill 2016 bydd yn cynorthwyo oedolion nad ydynt mewn cyflogaeth sy'n 18 oed neu'n hŷn i fynd ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach. Gall cyfranogwyr ymgymryd â gwaith dysgu ar ffurf cymwysterau lefel mynediad hyd at Lefel 2. Mae'r rhaglen hon yn olynu'r rhaglen 'Barod am Waith'.

3.7 Mae'r rhaglen hon yn cynorthwyo oedolion nad ydynt mewn cyflogaeth sy'n 18 oed neu'n hŷn i fynd ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach. Gall cyfranogwyr ymgymryd â gwaith dysgu ar ffurf cymwysterau lefel mynediad hyd at Lefel 2. Mae'r rhaglen hon yn olynu'r rhaglen 'Barod am Waith'.

**<u>Rhaglen Hyfforddeiaeth</u>**

3.8 Mae rhaglen Hyfforddeiaeth Llywodraeth Cymru yn helpu pobl ifanc sy'n dymuno gweithio ond y mae angen ychydig o gymorth ychwanegol arnynt. Bu i 68%

o’r dysgwyr a adawodd y rhaglenni Hyfforddeiaethau yn 2013-14 symud ymlaen yn gadarnhaol i gyflogaeth neu ddysgu ar lefel uwch. Mae’n rhaglen hyfforddi i bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt yn ymwneud fel arall ag addysg neu gyflogaeth. Nod y rhaglen yw gwella lefelau sgiliau er mwyn galluogi’r cyfranogwr i symud ymlaen i ddysgu pellach neu gyflogaeth drwy ddarparu cymwysterau lefel mynediad hyd at NVQ Lefel 2.

3.9 Bydd Hyfforddeiaethau yn cynnwys cyfnod hir o brofiad gwaith a chyfleoedd eraill i ddatblygu’r sgiliau a’r profiad yn y gweithle y mae ar gyflogwyr eu hangen.

# 4. Rhesymeg dros y newid

4.1. Yn ystod yr ymgynghoriad yn 2012 ar ‘gynigion i ddiwygio’r gofynion ar gyfer cofrestru’r gweithlu addysg yng Nghymru’[1], roedd mwyafrif yr ymatebwyr o’r sector Dysgu Seiliedig ar Waith o blaid cofrestru â chorff rheoleiddio priodol. Roedd yr ymatebwyr o’r farn y byddai hynny’n golygu bod darparwyr Addysg Bellach a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael yr un parch.

4.2. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai dysgu seiliedig ar waith yw dyfodol ein gwlad, ein heconomi a’n twf. Mae’r gwaith y mae darparwyr yn ei wneud yn hanfodol i’n heconomi – maent yn cael miloedd o bobl i mewn i hyfforddiant, yn cynorthwyo ein busnesau i gynyddu lefelau cynhyrchiant ac yn gwella lefelau symudedd cymdeithasol. Mae darparwyr hyfforddiant yn deall anghenion busnesau yn dda ac maent yn deall sut i ddarparu’r hyn y mae ei angen arnynt. Drwy gydymdrechion darparwyr hyfforddiant, gweithwyr ieuenctid, ysgolion, colegau a chyflogwyr, mae gennym raglen sy’n darparu’r safonau uchaf posibl o ran rhagoriaeth i’n dysgwyr yng Nghymru.

4.3. Mae ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith ar gyfer dysgu ôl-16 yn helpu i sicrhau bod yr addysg a’r hyfforddiant a ariennir gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus o ansawdd uchel ac yn diwallu anghenion dysgwyr. Mae’n amlwg bod arferion darparwyr hyfforddiant yn gallu bod yn effeithiol wrth gefnogi canlyniadau dysgu yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, a bod cydweithio agosach rhwng ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnig manteision sylweddol i bobl ifanc.

4.4. Mae angen i Ddysgu Seiliedig ar Waith fod yn greadigol, yn arloesol ac yn ysbrydoledig er mwyn datblygu a darparu’r cymorth y mae ei angen er mwyn galluogi pobl i symud tuag at gyflogaeth gynaliadwy a sicrhau cyflogaeth gynaliadwy.

[1] http://gov.wales/consultations/education/workforceregistration/?skip=1&lang=cy

# 5. Cofrestru

5.1. Yn rhan o'n strategaeth ansawdd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi dull strwythuredig ar waith ar gyfer gwella ansawdd a chodi safonau ar draws y sector ôl-16. Mae hynny'n cynnwys ystyried sut y gallwn ddefnyddio cyllid, cyngor ac arweiniad a rhannu arfer da i gefnogi mentrau gwella, o fewn darparwyr unigol ac ar draws y sector cyfan.

5.2. Mae Deddf 2014 yn cynnwys darpariaeth sy'n golygu y gall Gweinidogion Cymru ymestyn y gofyniad i gofrestru â'r Cyngor i grŵp ehangach o ymarferwyr.

5.3. Un o nodweddion allweddol llawer o broffesiynau yw gofyniad i gofrestru â chorff rheoleiddio proffesiynol sy'n gosod ac yn cynnal safonau proffesiynol, sy'n cynnal hyder y cyhoedd ac sy'n dangos ymrwymiad a rennir i broffesiynoldeb.

5.4. Manteision cofrestru yw y bydd y sawl sydd wedi cofrestru yn cael eu hystyried:

- yn aelodau dilys o'r gweithlu sydd â statws proffesiynol;
- yn unigolion sy'n bodloni'r safonau penodol ar gyfer dod yn aelod a pharhau'n aelod o'r proffesiwn hwnnw; ac
- yn addas i fod yn aelodau o'r proffesiwn – gan gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd.

5.5. Bydd cofrestru ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith â Chyngor y Gweithlu Addysg yn cryfhau eu proffil mewn ffyrdd cefnogol yn hytrach nag mewn ffyrdd sy'n cael effaith negyddol ar yr amrywiaeth sydd i'w gweld yn y sector. Byddwn yn cydnabod gwerth eu gwaith a'r cyfraniadau y maent yn eu gwneud i fywydau pobl ifanc.

5.6. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ymgynghoriad ynghylch cynigion i gofrestru'r gweithlu addysg ehangach yng Nghymru. Roedd mwyafrif llethol yn cytuno y dylai fod yn ofynnol i grwpiau eraill yn y sector addysg gofrestru, ac y dylent dalu ffi am gofrestru.

5.7. Mae'r gofyniad i gofrestru yn y gweithlu addysg yr un fath â'r gofyniad a geir yn achos unrhyw gorff cofrestru arall megis nyrsys, bydwragedd a ffisiotherapyddion. Mae hefyd yn ofynnol fel amod cyflogaeth i weithwyr proffesiynol yn y sectorau hynny dalu i'w cofrestru eu hunain.

## 6. Y cynnig sydd dan ystyriaeth

6.1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio safbwyntiau pobl am y categori newydd arfaethedig o ddarparwyr gwasanaeth yn y sector Dysgu Seiliedig ar Waith, y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru â'r Cyngor o 1 Ebrill 2017.

6.2. Mae cynifer o rolau amrywiol i'w cael ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n ganlyniad i union natur a hyblygrwydd y math hwn o ddysgu. Bydd y gofyniad i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg yn berthnasol i ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n darparu gwasanaethau hyfforddi a dysgu drwy ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith a gaiff ei gontractio gan Lywodraeth Cymru; sy'n ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â darparu Dysgu Seiliedig ar Waith, a thrwy unrhyw lefel o drefniant cytundebol. Mae'r pŵer i ddarparu'r cyllid hwn wedi'i roi dan adran 34 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

6.3. Dyma'r mathau o hyfforddiant a ddarperir:

- cyfleoedd dysgu wrth weithio, gyda chyrsiau sy'n cynnwys asesu dyfarniadau sy'n rhan o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru[2], ac unrhyw fath arall o ddysgu a ddarperir drwy'r rhaglenni y cyfeirir atynt yn Adran 3, a ddarperir ar safle'r cyflogwr.

- cyfleoedd dysgu heb fod yn gweithio gyda chyrsiau sy'n cynnwys darparu ac asesu dyfarniadau sy'n rhan o Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru[3], ac unrhyw fath arall o ddysgu a ddarperir drwy'r rhaglenni y cyfeirir atynt yn Adran 3, a ddarperir ar ystod eang o safleoedd, gan gynnwys coleg Addysg Bellach, canolfannau a adeiladwyd at y diben, eiddo a huriwyd a/neu safle'r cyflogwr.

6.4. Mae rolau ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnwys Hyfforddwyr ac Aseswyr. Bydd yr Hyfforddwr yn gyfrifol am gydlynu a darparu gwaith dysgu ac asesu i unigolion sy'n dilyn Prentisiaethau a dyfarniadau/cyrsiau cysylltiedig.

6.5 Bydd Aseswyr yn ymweld â dysgwyr yn eu man gwaith, i asesu a yw eu gwaith yn bodloni safonau galwedigaethol cenedlaethol ar gyfer sgil penodol. Yn gyntaf, bydd Aseswr yn cadarnhau beth y mae ymgeisydd yn ei wybod a beth y mae'n gallu ei wneud, cyn nodi'n fanwl y wybodaeth a'r sgiliau y bydd angen i'r ymgeisydd eu hennill. Yna, bydd cynllun gweithredu unigol yn monitro cynnydd y dysgwyr.

---

[2] Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn cynnwys tair colofn ddysgu: Addysg Uwch, Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd, a'r Golofn Cymwysterau Rheoleiddiedig. Fodd bynnag, gyda'r Strategaeth Cymwysterau Sector sy'n datblygu a phwysigrwydd cynyddol datblygu sgiliau lefel uwch, gallai gwaith dysgu a rhaglenni eraill yn y Golofn Addysg Uwch a'r golofn Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd gael eu hystyried yn berthnasol i brentisiaethau ar ryw adeg.

[3] Mae Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru yn cynnwys tair colofn ddysgu: Addysg Uwch, Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd, a'r Golofn Cymwysterau Rheoleiddiedig. Fodd bynnag, gyda'r Strategaeth Cymwysterau Sector sy'n datblygu a phwysigrwydd cynyddol datblygu sgiliau lefel uwch, gallai gwaith dysgu a rhaglenni eraill yn y Golofn Addysg Uwch a'r golofn Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd gael eu hystyried yn berthnasol i brentisiaethau ar ryw adeg.

6.6 Gall rolau'r Hyfforddwr a'r Aseswr gael eu cyflawni gan yr un person, neu gall gwahanol bobl eu cyflawni. Byddai'r gofyniad i gofrestru yn berthnasol i'r unigolion sy'n ymgymryd â'r rolau hyn.

6.7 Byddai'r gofyniad i gofrestru hefyd yn berthnasol i rolau'r Hyfforddwr Dysgu neu'r Mentor, y mae'r ddau ohonynt yn darparu gwasanaethau tebyg, er eu bod yn gwneud hynny dan deitlau swyddi gwahanol. Mae'r ddwy rôl yn cynnig cymorth uniongyrchol i ddysgwyr, gan dargedu perfformiad ar lefel uchel a gwelliant yn y gwaith. Maent yn canolbwyntio ar sgiliau a nodau penodol ac yn rhoi strategaethau ar waith sy'n cynorthwyo dysgwyr mewn gweithgareddau sy'n hybu eu hyder a'u hunan-barch. Gallai rolau o'r fath hefyd fod yn rhai ar wahân, yn rhai sydd wedi'u cyfuno neu'n rhai sydd wedi'u cynnwys yn rôl yr Hyfforddwr a/neu'r Aseswr.

6.8 Dyma'r rolau penodol ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith yr ystyrir y dylent gael eu cofrestru:

Hyfforddwr;
Aseswr;
Hyfforddwr dysgu, a
Mentor.

6.9. Mae pob un o'r rhain yn gweithio gyda phobl ifanc mewn rôl hyfforddi a dysgu, ac mae ganddynt rôl allweddol i'w chwarae o ran:

- darparu Dysgu Seiliedig ar Waith;
- asesu Dysgu Seiliedig ar Waith; neu
- gefnogi annibyniaeth, cyflawniad neu gynnydd dysgwyr ym maes Dysgu Seiliedig ar Waith fel hyfforddwr neu fentor.

6.10 Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd (rhai mewnol ac allanol) yn gwirio ansawdd gweithdrefnau sy'n ymwneud â sicrhau bod gwaith asesu'n cael ei gynnal yn deg ac yn gyson i fodloni safonau cenedlaethol, a bod unrhyw ddiffygion yn cael eu gwella. Bydd hefyd yn cynnwys cynllunio i samplu'r holl ddulliau asesu a holl unedau cymwysterau gyda'r nod o wella arferion asesu. Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn gweithio i Sefydliadau Dyfarnu, ac nid ydynt yn ddarparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r gofyniad i gofrestru fod yn berthnasol i'r naill rôl na'r llall gan nad ydynt yn ymwneud â dysgu neu hyfforddi dysgwyr.

6.11 Ni fydd y cynnig o ran polisi yn cyflwyno gofyniad i gofrestru ar gyfer y busnesau hynny sy'n recriwtio trwy Raglen Brentisiaeth ac sy'n darparu hyfforddiant dan oruchwyliaeth drwy brofiad o weithio yn y gweithle. Fel y nodir ym mharagraff 6.2, bydd y gofyniad i gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg ond yn berthnasol i ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n darparu gwasanaethau hyfforddi a dysgu drwy ddarparwr Dysgu Seiliedig ar Waith a gaiff ei gontractio gan Lywodraeth Cymru. Bydd y darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith yn gweithio gyda busnesau i ddarparu rhaglenni hyfforddiant seiliedig ar waith ar gyfer prentisiaethau.

6.12 Yn ogystal, ni fydd y cynigion yn effeithio ar gynlluniau megis ReAct, a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop neu gynlluniau gweithgareddau rhaglen yr Adran Gwaith a Phensiynau.

6.13 Fel sy'n wir am weithwyr cymorth dysgu mewn ysgolion / sefydliadau Addysg Bellach, bydd gan y Cyngor rôl allweddol i'w chwarae ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru i adnabod y darparwyr gwasanaeth hynny y bydd yn ofynnol iddynt gofrestru, cyn mis Ebrill 2017.

## 7. Sut i gyflwyno sylw ynghylch y cynnig hwn

7.1. Ceir cwestiynau penodol yn y ffurflen ymateb, a gwahoddir chi i ddarparu atebion i'r cwestiynau hyn neu roi sylwadau mwy cyffredinol, naill ai yn ysgrifenedig neu mewn print, yn electronig neu ar ffurf copi caled i'r cyfeiriad a nodir ar ddechrau'r ddogfen hon.